

## SIOE AWYR Y RHYL

Yn dilyn yr ansicrwydd parhaus ynghylch cynnal digwyddiadau ar raddfa fawr mewn perthynas â rheoliadau covid-19, mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi dod i'r penderfyniad anodd i beidio â chario ymlaen â Sioe Awyr y Rhyl ym mis Awst 2021 fel y cynlluniwyd.

Roedd tîm Digwyddiadau Hamdden Sir Ddinbych wedi gobeithio gwneud y sioe eleni yn fwy ac yn well nag erioed, ond byddant rŵan yn canolbwyntio eu hegri ar gyflwyno ailymddangosiad anhygoel yn 2022.

Dywedodd Jamie Groves, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf "Mae'n destun gofid mawr i ni gyhoeddi canslo Sioe Awyr y Rhyl eleni. Mae ein tîm cyfan yn ddigalon na fydd y Sioe Awyr yn mynd yn ei blaen. Rydym yn deall pa mor siomedig fydd hyn i ymwelwyr, trigolion a busnesau, gan y byddant wedi bod yn edrych ymlaen at y sioe eleni dwi'n siŵr, ond mae'n rhaid i ddiogelwch y cyhoedd barhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Er gwaethaf rhwystredigaeth yr amgylchiadau presennol, mae ein hymrwymiad i helpu'r Rhyl i dyfu ei heconomi dwristiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae gennym gynigion newydd cyffrous ar fin agor dros yr wythnosau nesaf, ac nid oes amheuaeth y byddwn yn helpu i wneud y Rhyl yn un o brif leoliadau Cymru i ymweld â hi eleni"

Mae Sioe Awyr y Rhyl, a fyddai wedi bod yn ei 12fed flwyddyn, wedi ennill "Gwobr Atyniad Gorau" yng Ngwobrau Twristiaeth Gogledd Cymru o'r blaen.

Ychwanegodd Jamie: "Rydym yn agor datblygiadau newydd yn y Rhyl yr haf hwn, wrth ehangu ein portffolio Bwyd a Diod; Y Teras yn 1891, Y Shack, ac yn ein parc dŵr SC2 sy'n agor y gwyliau hanner tymor hwn ym mis Mai, mae gennym ffatri hufen iâ newydd, cynnig Coffi Costa newydd ac ardal sblasio awyr agored wedi'i hadnewyddu sydd bellach ar gael i archebu fel tocyn ar wahân. Hefyd yn dod yn fuan, fydd ein arena Ninja TAG, sy'n mynd trwy rai datblygiadau newydd a chyffrous iawn, a fydd yn cael eu dadorchuddio'n barod ar gyfer gwyliau'r haf; felly gwylwch y gofod hwn. Mae canslo'r Sioe Awyr wrth gwrs yn siom enfawr, ond rydym yn dal i edrych ymlaen at haf hynod brysur a chyffrous o'n blaenau. Mae'r Rhyl yn prysur ddod yn dynnwr torf mawr ac yn leoliad o ddewis, gan fod cymaint i'w gynnig yno i ymwelwyr erbyn hyn."

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych ac Aelod Arweiniol dros yr Economi: "Mae'n destun gofid mawr ein bod yn cyhoeddi canslo Sioe Awyr y Rhyl eleni. Mae hwn wedi bod yn benderfyniad anodd i Hamdden Sir Ddinbych Cyf, ac rydym yn deall y siom y bydd yn ei achosi. Ond mae diogelwch ein trigolion a'n hymwelwyr o'r pwys mwyaf i Gyngor Sir Ddinbych. Er na fydd y Sioe Awyr yn mynd yn ei blaen eleni, rydym yn falch o weld y datblygiadau newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf, ac rydym yn siŵr y byddant yn atyniad ychwanegol wrth ddod ag ymwelwyr i'r ardal yr haf hwn. Credwn, hyd yn oed heb y Sioe Awyr, y bydd twf y Rhyl fel cychfan twristiaeth yn parhau drwy gydol 2021.

Hoffem ddiolch i drigolion, ymwelwyr a busnesau lleol am eu dealltwriaeth ac edrychwn ymlaen at ddychweliad y Sioe Awyr yn 2022."

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Angie Platt, Pennaeth Marchnata, Brand a Chysylltiadau Cyhoeddus yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar [angie.platt@sirddinbych.co.uk](mailto:angie.platt@sirddinbych.co.uk)*